Post Penalltau

01443 862974
ysgolpenalltau@sch.caerphilly.gov.uk
ysgolpenalltau.com

Post Penalltau – 13/10/2026

SCROLL DOWN FOR ENGLISH VERSION

PAWB

Diwrnod Ymwybyddiaeth Syndrom Down - Dydd Gwener 23/10

Ar ddydd Gwener 23/10 byddwn yn cynnal **Diwrnod Ymwybyddiaeth Syndrom Down** yn yr ysgol. I ddangos ein cefnogaeth ac i godi ymwybyddiaeth, rydym yn gwahodd disgyblion i wisgo **glas a melyn**.

Mae'r lliwiau hyn yn cael eu defnyddio'n eang gan gymuned Syndrom Down ledled y byd. Mae **glas** yn symbol o dderbyniad, dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth, tra bod **melyn** yn cynrychioli hapusrwydd, gobaith a dathlu amrywiaeth. Gyda'i gilydd, maent yn atgoffa ni o bwysigrwydd cynhwysiant a sicrhau bod pawb yn teimlo eu bod yn perthyn.

Bydd y diwrnod yn gyfle i ddysgu mwy am barch, caredigrwydd a dathlu'r pethau unigryw sy'n gwneud pob unigolyn yn arbennig. Edrychwn ymlaen at weld yr ysgol yn llawn glas a melyn wrth i ni ddod at ein gilydd i gefnogi'r achos pwysig hwn.

BLWYDDYN 3-6

ATGOF: Cyfleoedd Chwaraeon a Chystadlaethau Oddi ar y Safle

Wrth i ni barhau i gynnig amrywiaeth eang o gyfleoedd cystadleuol a chynrychioli'r ysgol mewn twrnameintiau a digwyddiadau chwaraeon, gofynnwn i rieni/gofalwyr lenwi'r ffurflen ganiatâd sydd ar gael drwy'r ddolen isod.

Bydd y ffurflen hon yn rhoi caniatâd i'ch plentyn gael ei gludo oddi ar y safle i gymryd rhan mewn cystadlaethau ac fe fydd ond angen ei chwblhau **unwaith**. Bydd hyn yn lleihau'r angen i anfon nifer fawr o slipiau caniatâd a llythyrau adref ar gyfer pob twrnamaint neu ddigwyddiad unigol.

Os hoffech i'ch plentyn gael y cyfle i gymryd rhan yn y gweithgareddau hyn, gwnewch yn siŵr eich bod yn llenwi'r ffurflen cyn gynted â phosibl.

https://forms.cloud.microsoft/e/LYdfrHaneS?origin=lprLink

PAWB

ATGOF: Her y Mis – Cyngor Ysgol

Mae ein Cyngor Ysgol wedi paratoi her newydd ar gyfer y mis hwn. Rydym yn annog pob disgybl i gymryd rhan a rhoi o'u gorau.

PAWB

ATGOF: Caffi Clonc 2026-2027

Rydym yn falch iawn o lansio ein **Caffi Clonc** newydd. Mae hwn yn gyfle gwych i rieni a gofalwyr ddod i'r ysgol, mwynhau paned, cael sgwrs anffurfiol gyda rhieni eraill a staff, a dysgu ychydig o Gymraeg mewn awyrgylch cyfeillgar a chroesawgar.

Yn ystod pob sesiwn, bydd ein **pwyllgorau llais y disgyblion** yn rhannu eu gweledigaeth, eu blaenoriaethau a'u cynlluniau ar gyfer y flwyddyn ysgol. Mae hwn yn gyfle gwerthfawr i ddysgu mwy am waith y pwyllgorau a sut maent yn helpu i siapio bywyd yr ysgol.

Dyddiadau ac amseroedd:

- **3 Rhagfyr 2026** – **Arweinwyr Digidol (Branwen)** – Rhieni: **3.15pm - 4.00pm**
- **25 Ionawr 2027 (Dydd Santes Dwynwen)** – **Guto** – Rhieni: **3.15pm - 4.00pm**
- **4 Chwefror 2027** – **Eco-Bwyllgor (Gelert)** – Rhieni: **3.15pm - 4.00pm**
- **1 Mawrth 2027 (Dydd Gŵyl Dewi)** – **Meithrin** – Rhieni: **9.00am - 9.45am**; **Melangell** – Rhieni: **3.15pm - 4.00pm**
- **15 Ebrill 2027** – **Iechyd a Lles (Seithennyn)** – Rhieni: **3.15pm - 4.00pm**
- **17 Mehefin 2027** – **Dwynwen / Cyngor Ysgol** – Rhieni: **3.15pm - 4.00pm**

Edrychwn ymlaen at eich croesawu i'r ysgol drwy gydol y flwyddyn.

PAWB

ATGOF: Rhai Dyddiadau Pwysig i'ch Dyddiadur

13/10/26, 15/10/26, 16/10/26 (Dosbarth Branwen yn unig) – Nosweithau Rieni

22/10/26 – Disgo Calan Gaeaf

02/12/26 – Ffair Nadolig

EVERYONE
Down Syndrome Awareness Day - Friday 23/10

On Friday 23/10, we will be holding a **Down Syndrome Awareness Day** in school. To show our support and help raise awareness, we invite all pupils to wear **blue and yellow**.
These colours are widely recognised by the Down syndrome community around the world. **Blue** symbolises awareness, understanding and acceptance, while **yellow** represents happiness, hope and celebrating diversity. Together, they serve as a reminder of the importance of inclusion and ensuring that everyone feels valued and belongs.
The day will provide an opportunity to learn more about respect, kindness and celebrating the qualities that make every individual unique. We look forward to seeing the school filled with blue and yellow as we come together to support this important cause.

YEAR 3-6

REMINDER: Off-Site Sporting and Competitive Opportunities
As we continue to provide a wide range of opportunities for pupils to represent the school at tournaments, competitions and sporting events, we ask parents/carers to complete the permission form available via the link below.
This form gives consent for your child to be taken off-site to participate in competitive opportunities and only needs to be completed **once**. This will help reduce the need for multiple permission slips and letters to be sent home for each individual tournament or event.

If you would like your child to take part in these valuable experiences, please ensure that you complete the form as soon as possible.

https://forms.cloud.microsoft/e/LYdfrHaneS?origin=lprLink

EVERYONE

REMINDER: Monthly Challenge – School Council

Please see below Monthly challenge from our school council.

EVERYONE

REMINDER: Caffi Clonc 2026-2027

We are delighted to launch our new **Caffi Clonc** initiative. This provides an excellent opportunity for parents and carers to come into school, enjoy a cup of tea or coffee, chat informally with staff and other parents, and learn some Welsh in a relaxed and welcoming environment.

During each session, our **pupil voice committees** will share their vision, priorities and plans for the year ahead. This is a valuable opportunity to find out more about the work of our committees and the important role they play in shaping school life.

Dates and times are as follows:

- **3 December 2026** – **Digital Leaders (Branwen Class)** – Parents: **3:15pm - 4:00pm**
- **25 January 2027 (St Dwynwen's Day)** – **Guto Class** – Parents: **3:15pm - 4:00pm**
- **4 February 2027** – **Eco Committee (Gelert Class)** – Parents: **3:15pm - 4:00pm**
- **1 March 2027 (St David's Day)** – **Nursery** – Parents: **9:00am - 9:45am**; **Melangell Class** – Parents: **3:15pm - 4:00pm**
- **15 April 2027** – **Health and Wellbeing Committee (Seithennyn Class)** – Parents: **3:15pm - 4:00pm**
- **17 June 2027** – **Dwynwen Class / School Council** – Parents: **3:15pm - 4:00pm**

We look forward to welcoming parents and carers into school throughout the year, providing opportunities to engage with our pupil voice groups, learn a little Welsh, and strengthen our partnership between home and school

EVERYONE

REMINDER: Important Dates for the Diary!

13/10/26, 15/10/26, 16/10/26 (Branwen Class only) – Pupil progress and wellbeing evenings

22/10/26 – Halloween Disco

02/12/26 – Christmas Fair

Cysylltiadau pwysig a all fod o ddefnydd i chi / *Important contact details that could be of use to you:*

Caerphilly Employment Support: 01443 864227

Samaritans: 116 123 (24 awr y dydd / *24 hours a day)*

Wales Domestic Abuse Helpline: 0808 80 10 800 (8.00am-2.00pm & 8.00pm-2.00am pob dydd / *every day*).

Mind Cymru: 0300 123 3393

Childline: 0800 1111 (24 awr y dydd / *24 hours a day)* **Women's Aid:** 01495 742061 (24 awr y dydd / *24 hours a day)* **Eastern Valley Food Bank:** 01495 760605